**Telerau ac Amodau Prifysgol Bangor (Sesiwn Academaidd 2019/20)**
[Fersiwn 1 01/09/19]

Mae Telerau ac Amodau 2019/20 yn berthnasol i ymgeiswyr a myfyrwyr sy'n cofrestru am y tro cyntaf ym Mhrifysgol Bangor yn sesiwn academaidd Medi 2020/2021.

**Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen ac yn deall y Telerau ac Amodau hyn cyn i chi dderbyn lle ym Mhrifysgol Bangor.** Mae'r Telerau ac Amodau llawn yn cynnwys cysylltiadau at ddogfennau eraill ar wefan y Brifysgol. Trwy dderbyn cynnig o le i astudio yn y Brifysgol yn ffurfiol, rydych yn derbyn y Telerau a'r Amodau sydd yn y ddogfen hon, yn ogystal â rheoliadau, gweithdrefnau a chodau ymarfer y Brifysgol a nodir ar wefan y Brifysgol.

**Mae'n ofynnol i ymgeiswyr a myfyrwyr gadw eu manylion cyswllt yn gyfredol bob amser.** Rhaid i chi gofnodi pob newid i fanylion cyswllt fel a ganlyn:

- Ymgeiswyr / deiliaid cynnig UCAS: trwy e-bost i applicantservices@bangor.ac.uk
- Ymgeiswyr / deiliaid cynnig rhyngwladol (heblaw UCAS) ac ôl-radd: trwy'r porth Ceisiadau Uniongyrchol (DA);
- Myfyrwyr Cofrestredig: trwy FyMangor (Gwasanaethau Ar-lein->Cysylltiadau)

**Derbyniadau**

Rheolir Recriwtio a Derbyniadau yn y Brifysgol fel y nodir yn y **Polisi a Chod Ymarfer Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr***,* mae'r manylion llawn i'w gweld yma. Mae'r polisi derbyniadau'n ceisio sicrhau bod yr holl bolisïau a'r dulliau gweithredu'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (e.e. cyfle cyfartal, anabledd, marchnata i ddefnyddwyr, ac ati) a'u bod yn glir, yn deg ac yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson. Tynnir eich sylw'n neilltuol at y canlynol:

1.1. Er bod y Brifysgol yn ceisio sicrhau y bydd yr holl raglenni astudio a'r modiwlau a hysbysebwyd yn cael eu cynnal, fe all sefyllfaoedd godi lle bydd hynny'n amhosibl am resymau a fydd yn rhesymol y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Bydd y Brifysgol hefyd yn ceisio cael hyd i raglen arall dderbyniol i'r ymgeiswyr. Os nad oes dewis arall addas, mi wnaiff y Brifysgol gynorthwyo'r ymgeisydd cyhyd ag y bo'n rhesymol i ddod o hyd i le yn rhywle arall.

1.2. Cyhoeddir ffioedd dysgu'r holl gyrsiau ar wefan y Brifysgol ar gyfer pob sesiwn academaidd. Lle na chynigir llefydd ar gyrsiau drwy UCAS,

Sylwer: Mae 'rhaglen' yn cyfeirio at raglenni astudio llawn a chofrestriadau cyrsiau byr / modiwlau.

bydd yr holl ffioedd sy'n gysylltiedig â'r cwrs yn cael eu nodi yn y cynnig. Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa eu bod, o dderbyn cynnig, yn cydnabod y bydd y ffioedd a nodir yn ddyledus wrth gofrestru.

1.3. Gellir canslo ceisiadau:

- 1.3.1 os yw'r cais yn cynnwys gwybodaeth anghywir
- 1.3.2 os nad yw'r ymgeisydd wedi datgan euogfarnau perthnasol
- 1.3.3 os nad yw'r ymgeisydd wedi ymateb i geisiadau gan y Brifysgol am wybodaeth ychwanegol o fewn cyfnod rhesymol (30 diwrnod).
- 1.3.4 os daw'r Brifysgol i wybod am unrhyw wybodaeth arall sy'n cyfiawnhau diddymu'r cais neu unrhyw gynnig/gynigion a wnaed eisoes.
- 1.3.5 os yw'r ymgeisydd, ei gynrychiolwyr neu asiantau yn cyfathrebu (ar lafar neu'n ysgrifenedig) â staff y Brifysgol mewn modd amhriodol a/neu dramgwyddus. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r hawl i gwtogi a/neu rwystro unrhyw gyfathrebu pellach a ddaw.

1.4. Yn achos cyrsiau perthnasol yn y Coleg Gwyddorau Dynol,lle bo ymgeisydd yn datgelu euogfarn droseddol berthnasol fel rhan o'r cais, bydd y Brifysgol yn ceisio gwybodaeth ychwanegol a rhoddir y cais o'r neilltu dros dro. Bydd gwybodaeth am euogfarnau troseddol yn cael ei chadw'n gyfrinachol a'i rhannu'n unig â'r staff hynny yn y Brifysgol a fydd yn ymwneud â phenderfynu a oes yna unrhyw risgiau'n gysylltiedig â derbyn ymgeisydd. Gall ystyried euogfarnau troseddol ar gyfer cyrsiau perthnasol arwain at lunio trefniadau arbennig, neu at wrthod y cais.

1.5. Pan fydd ymgeisydd yn dymuno apelio neu gwyno am unrhyw agwedd ar y broses ymgeisio a derbyn, dylent ddilyn y Weithdrefn Apeliadau a Chwynion ar gyfer Ymholwyr ac Ymgeiswyr (https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/documents/BU_AppealsandComplaintsProcedureforApplicantsv201701cym.pdf). Mae'r Brifysgol yn ystyried bod y contract rhwng yr ymgeisydd a'r Brifysgol wedi ei ffurfio ar un o dri phwynt mewn amser fel a ganlyn:

- i. Pan fo'r ymgeisydd yn 'derbyn' cynnig o le ym Mhrifysgol Bangor (Ymgeiswyr israddedig UCAS Cartref / Undeb Ewropeaidd ac ymgeiswyr ôl-radd);
- ii. Pan fo'r ymgeisydd wedi 'derbyn' y cynnig o le ym Mhrifysgol Bangor AC wedi talu'r blaendal gofynnol (ymgeiswyr rhyngwladol, tramor);

**NEU**

- iii. Pan fo Prifysgol Bangor yn 'derbyn' yr ymgeisydd yn TRACK (Ymgeiswyr clirio).

1.7 Ar y pwynt pan gaiff y contract ei ffurfio (i, ii NEU iii uchod), mae gan yr ymgeisydd hawl i ganslo'r cytundeb o fewn 14 diwrnod (y cyfnod ailystyried) a dylent roi gwybod i'r Brifysgol yn ysgrifenedig.

Sylwer: Mae 'rhaglen' yn cyfeirio at raglenni astudio llawn a chofrestriadau cyrsiau byr / modiwlau.

1.8 Gall y Brifysgol dderbyn myfyrwyr nad ydynt yn 18 oed erbyn 1 Medi yn y flwyddyn gofrestru. Ystyrir bod myfyrwyr o'r fath yn 'blant dan oed' yn gyfreithiol ac felly mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal uwch drostynt. Er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth hon, mae gan y Brifysgol Bolisi a Gweithdrefnau i Fyfyrwyr dan 18 oed a fydd yn cael ei weithredu ac sy'n cynnwys yr angen i Riant / Gwarcheidwad lenwi ffurflen Ganiatâd, ac i'r myfyriwr aros yn llety Neuaddau'r Brifysgol.

**Ar ôl Cofrestru**

2. Rhaid i bob myfyriwr gofrestru'n ffurfiol gydag adran Gweinyddu Myfyrwyr y Gwasanaethau Myfyrwyr ar ddechrau eu rhaglen astudio ac, wedyn, bydd angen iddynt gadarnhau o bryd i'w gilydd eu bod yn parhau i ddilyn y cwrs. Mae'n ofynnol bod y Brifysgol yn cadw gwybodaeth gyfredol ar ei holl fyfyrwyr cofrestredig. Gellir codi taliadau am gofrestru'n hwyr a/neu fethu â chadarnhau presenoldeb pan ofynnir am hynny. Mae manylion am y taliadau hyn i'w cael yn y Rhestr Ffioedd Dysgu. Hefyd gweler y Polisi Ffioedd Dysgu.

3. Mae myfyrwyr cofrestredig o dan reolau a rheoliadau'r Brifysgol a thynnir eich sylw at y canlynol yn neilltuol:
   3.1. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr gyflawni'r safonau ymddygiad a ddiffinnir gan ei rheoliadau, gweler y Cod Ymddygiad Myfyrwyr a'r Siarter Myfyrwyr. Bydd y Brifysgol yn cymryd camau disgyblu pan fydd unrhyw achos o dorri'r rheoliadau.
   3.2. Rhaid i bob myfyriwr dalu ffioedd a dirwyon y Brifysgol. Fel rheol, rhaid talu ffioedd cyn y cyfnod astudio ond gellir trefnu i dalu mewn rhandaliadau. Lle bo myfyriwr yn mynd i ddyled o ran ffioedd academaidd (e.e. ffioedd dysgu), gall y Brifysgol weithredu sancsiynau yn cynnwys: gwrthod â chaniatau i'r myfyriwr gofrestru, cadw dogfennau prifysgol yn ôl (e.e. tystysgrifau cymwysterau), cymryd camau cyfreithiol. Lle bo ar fyfyriwr ffioedd heb fod yn rhai academaidd (e.e. ffioedd llety), yna gellir gweithredu'r sancsiynau a nodir yn y Cytundeb Preswylio a gellir cymryd camau cyfreithiol i gael y myfyriwr i dalu'r ddyled. Mae gan y Brifysgol Polisi Addasrwydd i Breswylio y mae'n rhaid i holl breswylwyr llety Prifysgol Bangor gydymffurfio â nhw.
   3.3. Rhoddir cyfeiriad e-bost Prifysgol i fyfyrwyr a disgwylir iddynt edrych ar eu cyfrif e-bost Prifysgol yn rheolaidd. Y cyfrif hwn a ddefnyddir gan y Brifysgol i gyfathrebu'n electronig â'r myfyrwyr.
   3.4. Caiff presenoldeb y myfyrwyr ei fonitro yn unol â Pholisïau Monitro Presenoldeb y Brifysgol. Fel amod cofrestru, mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr roi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani, fel y gall y Brifysgol gyflawni ei busnes a'i rhwymedigaethau cyfreithiol i gyrff statudol (e.e. Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch HESA. Mae gan y Brifysgol Bolisi Diogelu Data, a Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr ar waith, a'r

Sylwer: Mae 'rhaglen' yn cyfeirio at raglenni astudio llawn a chofrestriadau cyrsiau byr / modiwlau.

rheiny wedi'u diweddaru'n unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

3.5. Er mwyn symud o un lefel ar raglen i un arall (er enghraifft, o flwyddyn gyntaf i ail flwyddyn gradd israddedig), mae'n rhaid i bob myfyriwr gyflawni safonau disgwyliedig eu cwrs fel y nodir yn rheoliadau'r rhaglen.

3.6. Mae astudio yn y Brifysgol yn dibynnu ar uniondeb academaidd a gellir rhoi cosbau, gan gynnwys atal myfyrwyr o'u hastudiaethau, am camymddwyn academaidd. Mae enghreifftiau o ymarfer annheg yn cynnwys cyflwyno gwaith rhywun arall fel eich gwaith eich hun (llên-ladrad) neu dwyllo mewn arholiad.

3.7. I gwblhau rhaglen yn llwyddiannus, mae'n rhaid i bob myfyriwr gyflawni'r meini prawf a bennir ar gyfer eu cwrs fel y nodir yn rheoliadau'r rhaglen.

## Cwynion ac apeliadau

4.1 Dylai myfyriwr sy'n dymuno cwyno am agweddau ar y cwrs, neu unrhyw wasanaeth arall a gynigir gan y Brifysgol, ddefnyddio Gweithdrefn Gwynion y Myfyrwyr.

4.2 Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau'r Byrddau Arholi a'r Swyddogion Disgyblaethol.

## Amrywiadau i'r Telerau a'r Amodau

**Sut y gallwn wneud newidiadau i'r Contract a sut y gallai hynny effeithio arnoch chi.**

5.1 Er y bydd y Brifysgol bob amser yn ceisio gwneud cyn lleied ag sy'n bosib o newidiadau i'r Contract (gan gynnwys newidiadau i'r gwasanaethau a/neu'r rhaglenni), o dro i dro gall fod angen newidiadau. Mae'r adran hon [5] yn disgrifio'r amgylchiadau pan allwn wneud newidiadau, yn ogystal â rhoi gwybodaeth bellach i chi am yr hyn a wnawn os byddwn yn ceisio gwneud newidiadau o'r fath.

**Newidiadau i wybodaeth cyn-gontract** (e.e. gwybodaeth prosbectws)

5.2 Os bydd unrhyw wybodaeth a roesom ichi yn ystod y cylch cyfredol (ac yn ystod yr amser hwnnw efallai eich bod wedi bod yn ymchwilio i'r Brifysgol ac yn gwneud cais am y rhaglen) yn newid erbyn inni anfon ein Cynnig, caiff y newidiadau hynny eu hadlewyrchu yng ngwybodaeth Cynnig y rhaglen.

5.3 Trwy dderbyn ein Cynnig, byddwch yn cadarnhau eich bod yn derbyn ein Cynnig gyda'r newidiadau sydd yn y Cynnig. Gallai enghreifftiau o'r newidiadau y gallwn eu gwneud ar y pwynt hwnnw gynnwys y canlynol:

- newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr a/neu arholwyr allanol;
- newidiadau anochel yn y staff academaidd neu staff cymorth y myfyrwyr;
- lle gwnaethom gynghori bod y rhaglen yn destun dilysiad neu achrediad ar yr adeg y gwnaethom hysbysebu'r rhaglen, ac na fu dilysu neu achredu erbyn dyddiad eich cynnig, gallem wneud cynnig 'yn amodol ar ddilysu', ond wedi hynny gallem beidio â chynnal y rhaglen a byddai'r cynnig yn cael ei dynnu'n ôl neu gellir cynnig rhaglen arall;
- newidiadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a/neu o ganlyniad i ofyniad rheoliadol y mae'n ofynnol i'r Brifysgol, fel darparwr gwasanaethau addysgol, gydymffurfio â nhw;
- newidiadau sy'n ofynnol gan gorff statudol, rheoliadol a/neu broffesiynol a/neu reoleiddiwr arall;
- newidiadau rhesymol i'r cynnwys a'r addysgu a ddarperir ar y rhaglen.

**Newidiadau ar ôl i chi ymrwymo i'r Contract gyda ni**

5.4 Os bydd angen inni wneud newidiadau i'r Contract a'r Gwasanaethau ar ôl llunio ein Contract, byddwn ym mhob achos yn asesu effaith bosibl y newidiadau hynny ar y Contract a'n myfyrwyr a byddwn yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn yr adran hon [5]. Mae'r Brifysgol bob amser yn ceisio gwella'r profiad a gaiff y myfyrwyr gyda ni, a byddwn yn cymryd rhan mewn deialog gyda'n myfyrwyr trwy gydol eu hastudiaethau, yn ogystal â'n staff addysgu, a byddwn yn mynd ati i geisio adborth gan y grwpiau hyn ynghylch sut y gallwn wella darpariaeth ein gwasanaeth i'n myfyrwyr.

5.5 Nid yr amgylchiadau a ddisgrifiwn yn adran [5.6] yw'r unig rai a all godi yn ystod eich astudiaethau gyda ni, ond maent yn rhoi rhywfaint o gyd-destun ichi ynghylch pryd y bydd angen inni newid y Contract (gan gynnwys y gwasanaethau a'r rhaglen). Mae adran [5.7] yn rhoi enghreifftiau eglurhaol i chi o'r math o newidiadau a allai godi o ganlyniad i'r rhesymau a nodir yn adran [5.6].

**Pryd y gallwn wneud newidiadau i'r Contract**

5.6 Gallwn wneud newidiadau i'n Contract (gan gynnwys i'r gwasanaethau a/neu'r rhaglen):

Sylwer: Mae 'rhaglen' yn cyfeirio at raglenni astudio llawn a chofrestriadau cyrsiau byr / modiwlau.

- adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a/neu ofynion cyrff proffesiynol, rheoleiddiol a/neu statudol a/neu UKVI;
- fel sy'n ofynnol gan bolisi'r llywodraeth, gofynion rheoliadol a/neu ganllawiau a/neu benderfyniad llys cymwys neu gorff tebyg;
- i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a bennir gan unrhyw gorff cyllido arall a/neu gorff rheoleiddio;
- i gydymffurfio â gofynion corff achredu;
- delio â newidiadau anochel yn y staff academaidd a/neu'r staff cymorth;
- rhoi sylw a/neu gymryd camau mewn ymateb i fygythiad i ddiogelwch;
- ymgorffori canllawiau arfer da'r sector;
- yng ngoleuni adborth gan y myfyrwyr a/neu adborth gan arholwyr allanol;
- oherwydd datblygiadau perthnasol mewn safonau a/neu ofynion addysgu academaidd, ymchwil a/neu broffesiynol, e.e. trwy'r broses ddilysu / ailddilysu;
- niferoedd cofrestru isel / cwymp yn y niferoedd cofrestru at y dyfodol;
- tynnu unrhyw achrediad perthnasol yn ôl;
- i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan ddarparwr lleoliad a/neu ddarparwr lleoliad yn tynnu lleoliad yn ôl;
- oherwydd newidiadau a wnaed gan bartner cydweithredol a/neu ofynion partner cydweithredol;
- cynlluniau tymor hir y Brifysgol sy'n arwain at gael gwared ar faes pwnc penodol yn raddol;
- am unrhyw reswm dilys arall.

**Pa fath o newidiadau y gellid eu gwneud?**

5.7 Gall y rhesymau yn adran [5.6] uchod arwain at wneud nifer o wahanol newidiadau gennym mewn ymateb. Rydym wedi nodi yn yr adran hon [5.7] rai enghreifftiau o'r ymatebion hynny ac, i'ch helpu chi ddeall yr hyn y gallai newidiadau o'r fath ei olygu i chi'n ymarferol, rydym wedi gwneud hyn trwy gyfeirio at yr enghreifftiau hynny gan ddefnyddio'r penawdau "newidiadau mawr" a "newidiadau bach". Bydd darpariaethau adran [5.8] yn berthnasol gan ddibynnu ar y math o newid a ragwelir ar y pryd.

**(i) Mân Newidiadau (rhestr o enghreifftiau nad yw'n gynhwysfawr)**

Sylwer: Mae 'rhaglen' yn cyfeirio at raglenni astudio llawn a chofrestriadau cyrsiau byr / modiwlau.

- newidiadau rhesymol i'r amserlen ar gyfer cyflwyno'ch rhaglen;
- newidiadau rhesymol i nifer y dosbarthiadau/darlithoedd a gweithgareddau addysgu eraill sy'n ymwneud â'r rhaglen;
- newidiadau rhesymol i ddulliau darparu a/neu'r asesu'r Rhaglen;
- amrywiadau rhesymol i gynnwys a maes llafur y Rhaglen;
- newidiadau i leoliad cyfleusterau eich Rhaglen, ar yr amod bod y rheiny ar yr un campws a/neu ar yr amod eu bod o'r un ansawdd â'r rhai a hysbysebir gennym ni;
- ychwanegiadau a/neu dynnu rhai modiwlau nad ydynt yn rhai craidd ar eich Rhaglen yn ôl;
- newidiadau i'r rhestrau darllen i ddelio â newidiadau yn y maes pwnc perthnasol sy'n ymwneud â'ch Rhaglen i sicrhau ei bod mor gyfredol â phosibl;
- newidiadau gweithdrefnol i'n Llawlyfr Myfyrwyr sy'n helpu ei wella er eich budd chi.

**(ii) Newidiadau Mawr (rhestr o enghreifftiau nad yw'n gynhwysfawr)**

- newidiadau i'r ffordd yr ydym yn addysgu, yn goruchwylio a/neu'n asesu Rhaglen i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r Rhaglen honno i chi yn gyfreithlon a/neu'n unol â safonau ac ansawdd academaidd;
- ychwanegu a/neu dynnu rhai modiwlau nad ydynt yn rhai craidd/gorfodol ar eich Rhaglen yn ôl;
- gwneud newidiadau mwy sylweddol i'n Rhaglenni;
- newid ein gweithdrefnau diogelwch i'r fath raddau fel y byddai'n effeithio i raddau go berthnasol ar y ffordd y buoch yn gweithredu o'r blaen pan oeddech ar y campws gyda ni;
- newidiadau sylweddol i leoliad neu fanyleb cyfleusterau addysgu eich Rhaglen, a allai gynnwys symud y Rhaglen i gampws gwahanol neu leoliad na saif ger y campws gwreiddiol a oedd yn cyflenwi'r rhaglen;
- gwneud newidiadau sylweddol i'n Llawlyfr Myfyrwyr sy'n helpu i'w wella ond nid yw hynny er mantais i chi;
- anallu i ganiatáu cofrestriadau ail-wneud blwyddyn neu gofrestriadau ail-wneud modiwl oherwydd bod bwriad i ddod â rhaglen astudio neu faes pwnc i ben.

## Sut y rhoddwn wybod i chi am newidiadau i'r Contract

5.8 Ar gyfer mân newidiadau, byddwn yn eich hysbysu am unrhyw newidiadau ar e-bost gan roi cymaint o rybudd i chi ag sy'n briodol yn ein

barn ni o dan yr amgylchiadau. Lle bo modd, ceisiwn roi rhybudd i chi ymlaen llaw, ond efallai na fydd hynny'n bosibl bob amser.

5.9 Ar gyfer newidiadau mawr, byddwn yn eich hysbysu ar e-bost a llythyr drwy'r post cyn gynted â phosibl, a lle bynnag y bo hynny'n bosibl, heb fod yn hwyrach na mis cyn y disgwyliwn wneud y newid perthnasol.

5.10 Os nad ydych yn cytuno ag unrhyw newid mawr a wnawn i'r Contract, bydd gennych hawl i derfynu'r Contract mewn modd sy'n briodol i'ch statws fel a ganlyn:

- Cyn cofrestru: trwy beidio â chofrestru ar gyfer y rhaglen
- Ar ôl cofrestru: trwy ddilyn y broses ffurfiol o dynnu'n ôl yn barhaol yma.

Efallai y bydd gennych hawl i ad-daliad cyfrannol priodol o'r Ffioedd rydych chi wedi'u talu inni.

**Tynnu Rhaglenni yn ôl.**

**Ar ôl cychwyn y Rhaglen**

5.11 Efallai y bydd angen i ni roi'r gorau i'r Rhaglen (neu ryw faes pwnc) neu benderfynu peidio â darparu'r Rhaglen neu uno neu gyfuno'r Rhaglen â Rhaglenni astudio eraill, os bydd y Brifysgol yn ystyried mai rhesymol fyddai cymryd camau o'r fath. Os bydd y Brifysgol yn penderfynu cymryd camau o'r fath cyn i'r Rhaglen gychwyn, yna bydd yn gwneud ymdrechion rhesymol i'ch hysbysu ymlaen llaw a bydd gennych hawl i ganslo'r Contract hwn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Brifysgol. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd gennych hawl i ad-daliad o unrhyw flaendal/Ffioedd rydych chi wedi'u talu i'r Brifysgol. Os dewiswch barhau i gofrestru ar raglen, ar ôl cael gwybod y gallai maes pwnc gael ei derfynu / ei ddileu yn raddol, yna rydych yn derbyn y risg bod tebygolrwydd uwch o wneud mân newidiadau neu newidiadau mawr [5.7].

**Ar ôl cychwyn y Rhaglen**

5.12 Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd angen inni ddod â'r Rhaglen i ben neu uno neu gyfuno'r Rhaglen â rhaglenni eraill ar ôl i'r Rhaglen gychwyn, os bydd angen gwneud hynny oherwydd un o'r rhesymau a nodir yn adran [5.6].

5.13 Os yw adran [5.12] yn berthnasol, byddwn yn cymryd camau rhesymol i geisio:

- cynnig lle i chi ar raglen amgen yn y Brifysgol (os oes lle ar gael a'ch bod yn cydymffurfio â'r gofynion sydd ynglŷn â chael eich derbyn ar y Rhaglen honno a chofrestru arni); **neu**

Sylwer: Mae 'rhaglen' yn cyfeirio at raglenni astudio llawn a chofrestriadau cyrsiau byr / modiwlau.

- (ar eich cais chi) eich cynorthwyo i ymuno â rhaglen arall mewn sefydliad arall, ac
- (os yw'n briodol), rhoi ad-daliad o'r Ffioedd a dalwyd i chi.

**Rhan yn unig yw'r Telerau a'r Amodau uchod o'r Telerau ac Amodau llawn sy'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i'r Brifysgol ac yn cofrestru ynddi. Mae'r telerau llawn i'w cael mewn nifer o ddogfennau ac maent, o anghenraid, yn fwy manwl. I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch yma.**

Sylwer: Mae 'rhaglen' yn cyfeirio at raglenni astudio llawn a chofrestriadau cyrsiau byr / modiwlau.